Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council




# Cyngor Castell-nedd Port Talbot

## Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/2026

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**
**This document is also available in English**

**Os oes angen yr wybodaeth hon mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi, Perfformiad ac Ymgysylltu drwy ffonio: 07805 771506 neu e-bostio: policy@npt.gov.uk**

**www.npt.gov.uk/cy/cyngor/strategaethau-a-pholisiau/y-gymraeg/**

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ tudalen 3

Cefndir ........ tudalen 5

Atebolrwydd ........ tudalen 5

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ........ tudalen 6

Safonau Llunio Polisi ........ tudalen 7

Safonau Gweithredu ... ........tudalen 8
- Cyngor CnPT - Defnydd Mewnol o'r Gymraeg ........ tudalen 9
- Hyfforddiant ........ tudalen 10

Safonau Hybu ........ tudalen 11

Safonau Cadw Cofnodion ........ tudalen 13

Mesurau ........ tudalen 14




# Cyflwyniad

**Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2025-26.**

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i'r cyngor lunio adroddiad blynyddol am sut mae wedi cydymffurfio â'r safonau perthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r degfed adroddiad o'r fath gan y cyngor.

Mae'r Safonau'n rhoi'r hawl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin â sefydliadau penodol ac mae'n gofyn i'r sefydliadau hyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ffocws ar gynnig dewis ieithoedd yn weithredol, h.y. darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb fod angen i ddefnyddwyr gwasanaeth neu weithwyr ofyn amdanynt.

**Uchafbwyntiau/Llwyddiannau Allweddol**

Roedd 2025-2026 yn flwyddyn brysur a chyffrous i'r cyngor o ran cymryd camau gweithredu i gyflawni ein hymrwymiad i gydymffurfio â'r safonau wrth baratoi i groesawu Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym mis Mai 2025. Cofnodwyd cofrestriadau ar gyfer 119,593 o gystadleuwyr, sy'n record. Yn benodol, cafwyd cynnydd o 42% o ddysgwyr Cymraeg yn cymryd rhan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Daeth cyfanswm o 17 o ysgolion o Gastell-nedd Port Talbot yn gyntaf, yn ail neu'n drydydd yn ystod wythnos y rownd genedlaethol, a bu llawer mwy ohonynt yn cymryd rhan yn y rhagbrofion, ac chymerodd oddeutu 15,000 o blant a phobl ifanc ran drwy gydol yr ŵyl.

Darparodd yr Eisteddfod lwyfan da i ddangos ymrwymiad y cyngor i hybu'r Gymraeg.

Yn ystod yr Eisteddfod, lansiodd y cyngor ei ymgyrch Dewch i Sgwrsio – Let's Talk, sy'n cyfeirio preswylwyr i gyfleoedd ac adnoddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a dysgu'r iaith fel rhan o ymdrechion ehangach y cyngor i'w chefnogi a'i hybu. Ers lansio'r ymgyrch, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn y gronfa ddata digwyddiadau. Cafwyd cyfanswm o 133 o ddigwyddiadau yn 2026-2026, o'i gymharu â 45 ohonynt yn 2024-2025. Yn ogystal disgwylir cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg a gweithgareddau i'w hybu fel rhan o etifeddiaeth Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025.

Wrth i'n dogfennau diwygiedig Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg gyrraedd eu trydedd a'u pedwaredd flwyddyn, rydym yn dechrau gweld cynnydd da.

# Cyflwyniad (parhad)

Roedd ailsefydlu Fforwm Iaith ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ym mis Mehefin 2025 yn faes lle cafwyd llwyddiant arwyddocaol. Mae Fforwm Iaith newydd Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau allweddol ar draws y fwrdeistref sirol a bydd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel llawr gwlad yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

Cydnabyddir gwaith i gefnogi ac annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle fel elfen allweddol o daith y cyngor i gydymffurfio â'r iaith Gymraeg. I gefnogi hyn, parhaodd gwaith i sicrhau bod gweithwyr yn cwblhau cwrs e-ddysgu gorfodol CnPT am y Gymraeg. Yn 2025-2026, cwblhaodd gyfanswm o 4,725 o aelodau staff y cwrs, sef cynnydd o 1,866 ers diwedd y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu 64.2% o'r gweithlu cyfan.

Trefnodd y Grŵp Swyddogion y Gymraeg gyfres o weithgareddau anffurfiol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar draws y tri phrif adeilad dinesig - Y Ceiau, Canolfan Ddinesig Castell-nedd a Chanolfan Ddinesig Port Talbot, yn ogystal â chwis ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant Cymru.

Roedd y digwyddiadau'n llwyddiannus, a rhoddwyd cyfleoedd i weithwyr ymarfer eu sgiliau Cymraeg a'u hannog i archwilio gwedudalennau Dewch i Sgwrsio i gael gwybodaeth am weithgareddau sydd ar gael i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Daeth cyfanswm o 108 o aelodau staff i'r digwyddiadau.

Mae'r cyngor yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i fodloni'r safonau, ac yn cydnabod bod angen ffocws ac ymdrech barhaus er mwyn cyflwyno hyn. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â chydweithwyr a phartneriaid i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.













# Cefndir

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi gweithrediad y cyngor o safonau'r Gymraeg ac yn nodi meysydd penodol fel nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg a'r gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag, fel y mandadwyd ym Mesur y Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Roedd y safonau'n berthnasol i'r cyngor o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac maent wedi'u cynnwys yn ein hysbysiad cydymffurfio.

# Atebolrwydd

Mae gan y cyngor gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau'r Gymraeg, ac mae'r Prif Weithredwr yn atebol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cydnabod bod pob gweithiwr yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno'r dyletswyddau hyn yn llwyddiannus.

Mae trefniadau llywodraethu'n ei wneud yn ofynnol bod y Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, gan ddarparu sicrwydd bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i gynnal.

Mae'r Tîm Polisi Corfforaethol, Llywodraethu a Pherfformiad yng Nghyfarwyddiaeth Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu cyngor ac arweiniad i wasanaethau ynghylch bodloni gofynion y safonau. Mae'r tîm hefyd yn rheoli proses gwynion y Gymraeg y cyngor, gan sicrhau bod unrhyw bryderon neu honiadau o ddiffyg cydymffurfio'n cael eu nodi a'u datrys yn brydlon.
Gellir cael mynediad at yr holl wybodaeth, arweiniad a deunyddiau cefnogi sy'n berthnasol i weithredu Safonau'r Gymraeg drwy fewnrwyd y cyngor, NPT Connect.

Mae ymwybyddiaeth o'r safonau'n cael ei hyrwyddo drwy'r Uwch dîm arwain, y Tîm Arwain Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaethau, cyfarfodydd timau gwasanaeth a thrwy amrywiaeth o sianelu cyfathrebu mewnol gan gynnwys Viva Engage, NPT Connect Highlights (straeon newyddion ar y mewnrwyd) a'r cylchlythyrau staff wythnosol.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn cyfrannu at weinyddu a gweithredu'r safonau. Mae'r grŵp yn chwarae rôl allweddol wrth ddatrys materion yn ystod cam cynnar, cefnogi aelodau staff wrth gyflwyno gwasanaethau'n unol â dyletswyddau statudol, a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

# Safonau Cyflenwi Gwasanaethau


Mae **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau'n** nodi sut gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn ymdrin â'r cyngor. Maent yn gosod rheolau clir i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad at wasanaethau mor hawdd ac mor naturiol â siaradwyr Saesneg.

## Cyfarfodydd y Cyngor

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn ar sail hybrid ac rydym yn cynnig cyfieithu ar y pryd (o'r Gymraeg i'r Saesneg) gan ddefnyddio meddalwedd cyfieithu Cymraeg Microsoft Teams ar gyfer pob cyfranogwr yn nghyfarfodydd y Cyngor Llawn (os ydynt wyneb yn wyneb neu o bell). Mae hyn wedi'i integreiddio'n llawn â gwasanaeth gweddarlledu ac offer clyweledol hybrid Public-i.

## Gohebiaeth yn Gymraeg

Rydym yn parhau i wneud cynnig gweithredol i gydymffurfio â'n preswylwyr, ein hymwelwyr a'n cymunedau yn Gymraeg gyda botwm 'Derbyn gohebiaeth yn Gymraeg' ar barth 'Cais' ar ein gwedudalennau.




## Gwefan

Mae cyfanswm nifer yr ymweliadau â thudalennau ein gwefan gorfforaethol yn Gymraeg wedi mwy na dyblu o 22,284 yn 2024-2025 i 53,809 yn 2025-2026.

Yn yr un cyfnod, cafwyd hefyd gynnydd o 25% yn nifer y dilynwyr cyfryngau cymdeithasol ar ein tudalen Gymraeg gorfforaethol ar Facebook (o 355 yn 2024-2025 i 458 yn 2025-2026).



# Safonau Llunio Polisi

Mae ein **Safonau Llunio Polisi** yn sôn am ystyried y Gymraeg o'r dechrau pan fydd y cyngor yn datblygu neu'n newid polisïau, strategaethau neu gynlluniau. Maent yn sicrhau nad yw penderfyniadau'n rhoi'r Gymraeg dan anfantais, a lle bo'n bosib, eu bod yn helpu'r iaith i dyfu mwy a chael ei defnyddio'n fwy.

Lluniwyd Polisi Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol diwygiedig. Er mwyn cyd-fynd â'r gofyniad i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg wrth lunio polisi newydd neu adolygu/diwygio polisi presennol, aeth swyddogion sy'n gyfrifol am gwynion corfforaethol a'r Gymraeg i sesiwn ddysgu 'Arfer da mewn Gweithdrefnau Cwynion Cymraeg' y Comisiynydd, a oedd yn trafod pwnc allweddol. O ganlyniad, cafodd fecanweithiau i wella'r trefniadau ar gyfer nodi a monitro data cwynion Cymraeg yn y polisi o'r cychwyn.

Datblygwyd hefyd Bolisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, sef rhan o gynllun peilot dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r polisi'n mynd drwy broses gymeradwyo'r cyngor a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod 2026-27 (gweler tudalen 9)

Mae gofynion y safonau llunio polisi wedi'u cynnwys yn fframwaith Asesiad Effaith Integredig y cyngor, sy'n berthnasol i bob polisi newydd/diwygiedig a phenderfyniad polisi, gan sicrhau bod yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ym mhob achos. Mae arweiniad cynhwysfawr a dogfennaeth berthnasol ar gael ar hyn o bryd i'r holl staff drwy NPT Connect (mewnrwyd y cyngor).

Sefydlwyd Panel Cydraddoldeb ym mis Ionawr 2026 sy'n cynnwys trosolwg o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â nhw. Bydd y Panel yn adrodd i'r Cabinet bob chwe mis, gan ddarparu diweddariadau ynghylch cynnydd, heriau ac unrhyw argymhellion.



# Safonau Gweithredu

Mae **Safonau Gweithredu'n** berthnasol i sut cynhelir y cyngor yn fewnol fel ei fod ar gael i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn gyson ac i safon uchel. Maent yn canolbwyntio ar staffio, systemau a threfniadau gweithio pob dydd.

Roedd gostyngiad bach yn nifer y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg yn 2025-26 o'i gymharu â 2024-25, o 665 i 640. Nodir y sgiliau hyn drwy iTrent (system AD a chyflogres y cyngor) ar yr adeg sefydlu; fodd bynnag, gellir diweddaru'r rhain ar unrhyw adeg. Cafwyd y gostyngiad oherwydd bod gweithwyr â sgiliau Cymraeg yn gadael yr awdurdod/yn ymddeol a'r disgwyliad bod gweithwyr yn darparu ac yn diweddaru eu sgiliau iaith Gymraeg yn wirfoddol. Caiff ymgyrch fewnol i annog cydweithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon yn ogystal â chyhoeddi Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg 2026-2027.

Gellir dod o hyd i ddadansoddiad o sgiliau iaith Gymraeg fesul cyfarwyddiaeth/maes gwasanaeth ar dudalennau 17-18.

**Cynyddodd ein capasiti Cyfieithu Cymraeg o 1.2 swydd i 2 swydd CALl**

Mae arweiniad a deunyddiau cefnogi ynghylch y defnydd o Safonau'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â nhw ar gael i bob aelod o staff yn nhudalennau'r Gymraeg ar NPT Connect (mewnrwyd y cyngor).

Cwblhawyd adolygiad o drefniadau Cyfieithu Cymraeg ar draws y cyngor yn ystod y flwyddyn a gwnaed trefniadau ar gyfer lansiad ein swyddogaeth Cymorth Cyfieithu Cymraeg (ar 1 Ebrill 2026). Fel rhan o'r trefniadau hyn, cynyddodd ein capasiti Cyfieithu Cymraeg o 1.2 swydd i 2 swydd gyfwerth ag amser llawn (CALl).

CYMRAEG

## Cyfeiriadur Siaradwyr Cymraeg

Nodwyd 121 o aelodau staff yn ein cyfeiriadur siaradwyr Cymraeg sy'n fodlon/gallu defnyddio eu sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith. Mae hyn yn dangos gostyngiad bach o 130 ohonynt yn 2024-2025, ond mae cynlluniau'n datblygu i adolygu hunan-asesiad sgiliau Cymraeg aelodau staff a nodi'r rhain yn gywir, a disgwylir y dangosir cynnydd mewn perthynas â hyn yn Adroddiad Blynyddol 2026-2027.

# Cyngor CnPT - Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

**Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o dan-adrodd o ran sgiliau'r Gymraeg gan weithwyr. Nodir hyn ar hyn o bryd yn ystod yr adeg sefydlu; ond gellir diweddaru hyn ar unrhyw adeg.**

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd ar ddull newydd i wella ein darpariaeth cyfieithu Cymraeg, gwella cynaliadwyedd a chefnogi cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus yn y gwaith.

Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o gyfieithu Cymraeg ar draws y cyngor, a gwnaed trefniadau i lansio ein swyddogaeth Cymorth Cyfieithu Cymraeg newydd (ar 1 Ebrill 2026), sy'n defnyddio arbenigedd dau gyfieithydd mewnol a chontractio gwaith i aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

> Yn dilyn Eisteddfod yr Urdd 2025, rydym wedi gweld cynrychiolaeth well yn ein Grŵp Swyddogion y Gymraeg a mwy o bobl yn bresennol yn ein digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi i staff.

Roedd hefyd yn cynnwys cyflwyniad fesul cam o fatrics newydd ar gyfer hunanasesu sgiliau Cymraeg er mwyn cefnogi cyflwyniad Cyfieithu Clyfar CnPT, sef offeryn cyfieithu Cymraeg y cyngor a hwylusir gan ddeallusrwydd artiffisial, y cafwyd cynllun peilot ar ei gyfer yn 2025 er mwyn ei gyflwyno ym mis Ebrill 2026. Wrth ystyried datganiad y Comisiynydd yn briodol (y gall defnyddio deallusrwydd artiffisial i gyfieithu dogfennau neu gyfathrebiadau swyddogol heb adolygiad dynol arwain at wallau ieithyddol neu gamgymeriadau sy'n tanseilio safonau'r Gymraeg a'r ymddiriedaeth yn y gwasanaethau) caiff mynediad at yr offeryn ei gyfyngu i'r rheini sydd wedi hunanasesu eu bod ar lefel sy'n eu galluogi i adolygu a sicrhau ansawdd cyfieithiadau Cymraeg.

Rydym yn parhau i gyhoeddi cyflwyniadau ein cylchlythyr wythnosol i weithwyr yn ddwyieithog, yn ogystal ag erthyglau newyddion staff sy'n berthnasol i iaith a diwylliant Cymru.

Disgwylir y bydd yr uchod yn cyfrannu at dwf pellach yn nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn y cyngor.



## Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Yn ystod 2025-2026, parhaodd y cyngor â datblygiad Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg fel rhan o gynllun peilot dan arweiniad Comisiynydd y Gymraeg sy'n berthnasol i'r maes gwaith hwn.

Disgwylir i'r polisi gael ei gyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27 a bydd yn cyd-fynd â mentrau Cymraeg ehangach â'r nod o gynorthwyo aelodau staff wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o ran yr iaith Gymraeg.

# Hyfforddiant




Mae ein cwrs e-ddysgu CnPT am yr Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn sail ar gyfer cyflwyno pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle i weithwyr. Mae'r cwrs yn cynnwys hanes byr o'r iaith, cyfraith a pholisi'r Gymraeg, y rheswm pam mae'r Gymraeg yn bwysig, gwybodaeth Safonau'r Gymraeg am dderbyn galwadau, e-byst, cyfarfodydd, gwasanaethau cyfieithu a hyfforddiant. Erbyn 31 Mawrth 2026, cwblhaodd 4,725 o aelodau staff y cwrs - cynnydd o 1,866 o bobl o'i gymharu â 2024-2025, sy'n gyfwerth â 64.2% o'r gweithlu cyfan.

Mae'r cwrs e-ddysgu ar ein system rheoli dysgu, Thinqi. Mae monitro ac adrodd am gyrsiau a gwblhawyd yn haws nag yr oedd ar systemau blaenorol. Mae hygyrchedd i'r platfform a phrofiad cyffredinol defnyddwyr o'r system wedi gwella'n sylweddol ac rydym yn nodi'r rhain fel rhesymau dros y cynnydd mawr yn nifer y cyrsiau a gwblhawyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi llwyddo i awtomeiddio'r cwrs, sy'n golygu bod pob gweithiwr newydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar ei gyfer ar ei ddiwrnod cyntaf yn y swydd.

Ym mis Tachwedd 2025, ailddechreuwyd sesiynau 'Hyder...ish' ar gyfer gweithwyr mewn partneriaeth â Menter Iaith CnPT. Roedd yr ail grŵp yn cynnwys chwe sesiwn yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd, a chofrestrodd pum aelod o staff ar ei gyfer. Ystyrir cyflwyno grwpiau eraill, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal sesiynau hybrid er mwyn annog mwy o bobl i'w gwblhau. Yn dilyn llwyddiant ein digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth 2026, mae cynlluniau hefyd ar waith i ailgyflwyno sesiynau 'Sgwrs' rheolaidd yn 2026-2027.

Yn dilyn adnewyddu'r rhaglen sefydlu corfforaethol yn 2024-2025, cyflwynwyd y deunydd hyfforddi'n ddwyieithog ac ehangwyd y cynnwys am y Gymraeg yn sylweddol. Disodlwyd y trosolwg gwreiddiol o Safonau'r Gymraeg ar ddau sleid gydag adran sy'n cynnwys 11 o sleidiau sy'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r Safonau ac sy'n cyfeirio aelodau staff at adnoddau perthnasol. Yn ystod 2025-2026, cyflwynwyd tair sesiwn sefydlu corfforaethol lle roedd cyfanswm o 243 o bobl yn bresennol.

thinqi







Consortiwm Dysgu Cymru
Learning Consortium Wales

# Safonau hybu

Mae'r **Safonau Hybu'n** trafod annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Maent yn disgwyl y bydd y cyngor yn cefnogi'r Gymraeg yn weithredol, yn hytrach na chydymffurfio â'r gofynion lleiaf wrth ddarparu gwasanaethau. Mae rhai meysydd allweddol yn y safonau hyn yn cynnwys hyrwyddo gwasanaethau yn Gymraeg, annog hyder aelodau staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg, cefnogi ymgyrchoedd a mentrau sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynnwys y Gymraeg mewn diwylliant corfforaethol a negeseuon i'r cyhoedd.

Parhaodd ein **Grŵp Swyddogion y Gymraeg**, sy'n buddio'n fawr o gyfranogaeth werthfawr Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, i gyfarfod yn rheolaidd, ac un o'i brif rolau yw cefnogi cyflwyniad ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn destun ei hadroddiad blynyddol ei hun, ond roedd rhai o'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- Cynhaliwyd **Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025** ym Mharc Gwledig Margam ym mis Mai, a chafwyd cofrestriadau ar gyfer 119,593 o gystadleuwyr, sy'n record. Yn ystod y digwyddiad, lansiodd y cyngor ei ymgyrch Dewch i Sgwrsio – Let's Talk, sy'n cyfeirio preswylwyr i gyfleoedd ac adnoddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a dysgu'r iaith fel rhan o ymdrechion ehangach y cyngor i'w chefnogi a'i hybu.








## Safonau hybu *(parhad)*

- **Canmlwyddiant Richard Burton** - Er bod Richard Burton wedi dod yn enwog yn rhyngwladol, roedd rhaglen ei ganmlwyddiant yn pwysleisio ei wreiddiau, ei lais a'i hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig, gan nodi sut gwnaeth ei fagwraeth ym Mhont-rhyd-y-fen a Thai-bach lywio ei gelfyddyd. Roedd rhaglen ei ganmlwyddiant yn cynnwys gweithgareddau creadigol yn Gymraeg, yn ogystal ag arwyddion dwyieithog a chynnwys digidol ar hyd Llwybrau Richard Burton. Gwnaeth hyn gyfrannu at normaleiddio presenoldeb cyhoeddus pob dydd y Gymraeg mewn lleoliadau diwylliannol a gwella mynediad at brofiadau celfyddydol yn Gymraeg ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr.



- Cynhaliwyd tri digwyddiad **Dydd Gŵyl Dewi** ar gyfer gweithwyr rhwng 3 a 5 Mawrth 2026 yn y prif adeiladau dinesig (Canolfan Ddinesig Castell-nedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot a'r Ceiau). Roedd y digwyddiadau hyn yn llwyddiannus, a daeth dros 100 o aelodau o staff iddynt.



- Dechreuodd ail grŵp y sesiynau **'Hyder...ish'** ym mis Tachwedd 2025 dan arweiniad Menter Iaith CnPT. Anelwyd y sesiynau anffurfiol ac am ddim hyn dros 6 wythnos at weithwyr sy'n siarad Cymraeg a oedd am wella'u hyder.


### Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol



Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y cyngor y cynnig i gymryd rhan mewn modiwlau craidd am ddim yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Ddata Cymru mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a chynghorau. Roedd un o'r cwestiynau'n gofyn 'A ydych chi'n credu bod gwasanaethau'r cyngor ar gael yn eich iaith ddewisol?'. Dywedodd 80.7% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod gwasanaethau'r cyngor ar gael yn eu hiaith ddewisol ar bob adeg. Wrth hidlo'r canlyniadau i ddangos y rheini a ddywedodd mai'r Gymraeg oedd eu hiaith ddewisol, gostyngodd y nifer hwn i 54.55%. Mae'r cyngor yn bwriadau cynnal yr arolwg yn flynyddol a chaiff y data ar gyfer y cwestiwn hwn ei fonitro â'r nod o weld gwelliant o ran siaradwyr Cymraeg sy'n teimlo bod gwasanaethau ar gael yn eu hiaith ddewisol.

# Safonau Cadw Cofnodion

Mae **Safonau Cadw Cofnodion** yn trafod cadw tystiolaeth glir o'r ffordd y mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Nid ydynt yn ychwanegu gofynion gwasanaeth newydd - yn hytrach maent yn sicrhau y gall y cyngor ddarparu tystiolaeth am yr hyn y mae wedi'i wneud. Mae hyn yn helpu i gefnogi atebolrwydd a rhoi trosolwg rheoleiddio. Mae meysydd allweddol yn cynnwys cadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Gymraeg, y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau, cofnodi sgiliau Cymraeg aelodau staff (yn ôl y gofyn), llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg a rhoi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ar gais.









## Cwynion

Yn ôl Safon 170, gofynnir i'r cyngor gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw gwynion a dderbynnir ynghylch ei gydymffurfiaeth â'r safonau. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion drwy Gomisiynydd y Gymraeg nac yn uniongyrchol i'r cyngor yn ystod 2025-2026.

Rydym yn cydnabod bod elfen o dan-adrodd cwynion oherwydd anghysondeb wrth gofnodi data. Disgwylir y bydd y trefniadau mwy cadarn ar gyfer nodi a monitro data am gwynion Cymraeg sydd wedi'u cynnwys yn ein Polisi Cwynion a Chanmoliaeth a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn helpu i fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

# Mesurau

| **Galwadau ffôn** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sydd â sgiliau iaith rhugl/eithaf rhugl a nodwyd yn y cyfeiriadur gweithwyr | 125 | 130 | 121 |
| Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn – Saesneg | 48 o eiliadau | 55 o eiliadau | 40 o eiliadau |
| Amser cyfartalog i ateb galwadau ffôn – Cymraeg | 71 o eiliadau | 53 o eiliadau | 59 o eiliadau |

*Cafwyd cynnydd bach mewn amserau ymdrin â galwadau yn 2025-2026 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i absenoldeb tymor hir yn y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ynghyd â chyfnodau brig gwyliau blynyddol a gostyngiad dros dro yn nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg wrth i brosesau recriwtio a hyfforddiant ddigwydd.*

| **Cyfieithiadau** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cost cyfieithiadau (lle gellir eu hadnabod) | £89,735 | £66,663 | £71,544 |

## Mesurau *(parhad)*

| **Cwynion** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| Nifer y cwynion a dderbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg | 0 | 1 | 0 |
| Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen ymchwilio iddynt | 0 | 1 | 0 |
| Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na chafwyd methiant i gydymffurfio â'r safonau | 0 | 0 | 0 |

| **Swyddi Gwag ar gyfer 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026** | | |
|---|---|---|
| **Gofynion sgiliau Cymraeg** | **Nifer y swyddi** | **% y swyddi** |
| Hanfodol | 42 | 5.60% |
| Dymunol | 93 | 12.40% |
| Angen dysgu Cymraeg | 2 | 0.30% |
| Nid oes angen sgiliau Cymraeg | 615 | 81.80% |

## Mesurau *(parhad)*

| **Swyddi Gwag – Sgiliau Iaith** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
| --- | --- | --- | --- |
| Hanfodol | 123 | 68 | 93 |
| Dymunol | 22 | 12 | 42 |
| Nid oes angen sgiliau Cymraeg | 716 | 466 | 615 |
| Angen dysgu Cymraeg | 4 | 0 | 2 |

| **Sgiliau Iaith Staff Cyngor CnPT** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
| --- | --- | --- | --- |
| Siaradwr ac ysgrifennwr eithaf rhugl | 77 | 79 | 74 |
| Siaradwr eithaf rhugl | 74 | 69 | 65 |
| Siaradwr ac ysgrifennwr Cymraeg rhugl | 135 | 136 | 125 |
| Siaradwr Cymraeg rhugl | 44 | 44 | 43 |
| Dysgwr y Gymraeg | 346 | 337 | 333 |
| Cyfanswm | 676 | 665 | 640 |

# Mesurau - sgiliau iaith Gweithwyr Cyngor CnPT yn ôl cyfarwyddiaeth/maes gwasanaeth

| Cyfarwyddiaeth/ Gwasanaeth | Siaradwr ac ysgrifennwr eithaf rhugl | Siaradwr eithaf rhugl | Siaradwr ac ysgrifennwr rhugl | Siaradwr rhugl | Dysgwr y Gymraeg | Ychydig o wybodaeth/dim gwybodaeth | Dewis peidio â dweud | Cyfanswm | Heb adrodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion | 0 | 0 | 2 | 0 | 5 | 16 | 1 | 6 | 0 |
| Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes | | | | | | | | | |
| Y Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad | 4 | 1 | 10 | 2 | 35 | 104 | 3 | 160 | 37 |
| Datblygu Addysg | 4 | 2 | 5 | 3 | 8 | 35 | 1 | 59 | 24 |
| Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant | 3 | 3 | 7 | 2 | 13 | 97 | 0 | 126 | 22 |
| Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid | 12 | 5 | 27 | 9 | 42 | 381 | 23 | 500 | 250 |
| Yr Amgylchedd ac Adfywio | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Cefnogi Busnes | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 6 | 0 | 8 | 1 |
| Peirianneg a Thrafnidiaeth | 3 | 2 | 4 | 1 | 9 | 82 | 2 | 104 | 47 |
| Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd | 3 | 3 | 2 | 0 | 20 | 53 | 1 | 83 | 31 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Eiddo ac Adfywio | 3 | 6 | 5 | 4 | 12 | 135 | 3 | 169 | 59 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | 5 | 4 | 8 | 5 | 20 | 141 | 1 | 185 | 52 |
| Gwasanaethau Strydlun | 4 | 9 | 11 | 5 | 28 | 280 | 4 | 342 | 130 |
| Cyllid | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Ariannol | 1 | 4 | 2 | 0 | 11 | 109 | 0 | 127 | 31 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau i Oedolion | 13 | 11 | 16 | 5 | 47 | 366 | 7 | 466 | 143 |
| Gwasanaethau Busnes | 0 | 2 | 3 | 2 | 6 | 68 | 0 | 81 | 27 |
| Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | 9 | 5 | 10 | 3 | 39 | 193 | 0 | 260 | 103 |
| Tai a Chymunedau | 1 | 3 | 3 | 0 | 13 | 75 | 0 | 96 | 26 |
| Gwasanaethau Strategaeth a Chorfforaethol | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Digidol | 3 | 1 | 1 | 0 | 7 | 64 | 1 | 77 | 24 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | 5 | 2 | 4 | 1 | 11 | 44 | 0 | 68 | 28 |
| Pobl a Datblygu Sefydliadol | 2 | 1 | 4 | 1 | 7 | 76 | 1 | 93 | 31 |
| Cyfanswm | 75 | 65 | 123 | 43 | 334 | 2316 | 48 | 3004 | 1066 |

| **Cyfryngau Cymdeithasol** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| X (dilynwyr)<br>Cyfrif Saesneg corfforaethol<br>Cyfrif Cymraeg corfforaethol | 17,131<br>520 | 16,712<br>503 | 16,317<br>491 |
| Facebook (dilynwyr)<br>Cyfrif Saesneg corfforaethol<br>Cyfrif Cymraeg corfforaethol | 22,596<br>313 | 25,273<br>366 | 30,030<br>458 |

| **Nifer tanysgrifwyr e-gylchlythyrau newyddion CnPT** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| E-gylchlythyr Cymraeg | 95 | 34 | 49 |
| E-gylchlythyr Saesneg | 2,769 | 4,002 | 5,167 |
| E-gylchlythyr Dwyieithog | Dd/B | 98 | 107 |



| **Gwefan** | **2023-2024** | **2024-2025** | **2025-2026** |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 5,197,608 | 4,645,216 | 5,504,853 |
| Nifer yr ymweliadau â'r tudalennau Saesneg | 5,179,020 | 4,622,932 | 5,451,044 |
| Nifer yr ymweliadau â'r tudalennau Cymraeg | 18,588* | 22,284 | 53,809 |

** Oherwydd newidiadau i Google Analytics yn 2023-2024, cafwyd cyfnodau lle nad oedd yn bosib nodi'r gwahaniaeth rhwng ymweliadau â thudalennau Cymraeg a Saesneg. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys drwy ein gwefan newydd sy'n galluogi dadansoddi'n haws.*

## Ddweud eich dweud

**Croesewir ymholiadau neu adborth ynghylch yr adroddiad hwn drwy:**

**E-bost:** policy@npt.gov.uk

**Post:**
Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Canolfan Ddinesig,
Port Talbot,
SA13 1PJ

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y cyngor:

Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch at eich negeseuon ar ein tudalen X

Dilynwch ni ar Instagram